

## Cofion

- Daeth ton o dristwch dros yr ardal wrth i ni glywed am farwolaeth Aled Jones (Saron) o ganlyniad i ddamwain ganol yr wythnos. Cydymdeimlwn yn fawr â Nerys a'r plant – Ifan, Harri ac Elsa fach, ac â'i fam Glenys Jones (Peniel), ei chwaer Rhian, a gweddill y teulu yn eu colled enbyd. Gweddïwn y bydd Duw yn gwarchod drostynt mewn ffordd arbennig ac y byddant, ynghanol eu tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Dilwyn Ll. Jones (Nantglyn) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei wraig, Ann, wedi cyfnod o salwch. Cyflwynwn hwythau i ofal a thangnefedd yr Arglwydd a gweddïwn y bydd Duw yn cysgodi drostynt.
- Anfonwn ein cofion at Trefor Wynne (Henllan) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Abergele yn ystod yr wythnos, a hefyd Ynyr Clwyd (Henllan) gafodd driniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd ond sydd erbyn hyn wedi cael dod adref. Da yw cael adrodd fod Glenys Jones (Llanefydd) yn parhau i wella yn Ysbyty Rhuthun. Mae eraill o'r Ofalaeth wedi cael anafiadau ac eraill nad ydynt yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw a dymunwn wellhad buan iawn i bob un ohonynt.

## Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd 2015

Erbyn hyn mae manylion gwaith cwrs yr Ysgolion Sul wedi dod i law. Bydd angen i'r cyweithiau fod yn barod **erbyn Mawrth 23ain**, a bydd gwasanaeth byr **nos Wener, Mai 8fed** yn Llandyrnog am 6.30 i gyflwyno'r tystysgrifau, ynghyd â sgwrs i'r plant a lluniaeth ysgafn i ddiweddu'r noson.

Y dasg a osodwyd i'r plant a'r ieuencid eleni yw cywaith unrhyw gyfrwng ar y thema **'Damhegion yr Iesu'**. Gofynnir am gywaith gyda'r holl blant wedi cyfrannu ato mewn unrhyw gyfrwng, e.e. gwaith ymchwil, ysgrifennu stori, dramodig, poster, gweddi, sgwrs ar dâp, sribed cartwn, cyflwyniad PowerPoint. Bydd arddangosfa o'r gwaith yn cael ei greu ar gyfer yr Henaduriaeth.

Ar gyfer yr oedolion, gofynnir am gyflwyniad ar yr un thema – **'Damhegion yr Iesu'**. Os yn cyflwyno traethawd, dylid cyfyngu i ddim mwy na 1,000 o eiriau, neu gellir cyflwyno gwaith llaw neu arddangosfa flodau. Os am gyflwyno arddangosfa flodau, gofynnir i chi ddod â'r gosodiad ar y noson wobrwyo yn unig a gadael i Carys Morgan (01824 702327), yr ysgrifennydd, wybod ymlaen llaw er mwyn cael rhoi eich enwau yn yr adroddiad. Pob hwyl wrth baratoi'r gwaith!

## I ddo

- **ADUNIAD SOULED OUT (15 OED+)** yng Ngholeg y Bala, Ionawr 30ain–Chwefror 1af.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8–12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 6ed–8fed. Mae mwy o fanylion ar gael yn yr eglwysi erbyn hyn – cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen i chi anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Ionawr 26ain**.



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 18<sup>fed</sup> Ionawr 2015

## Darllenid y Dydd

Luc 2:34-40

(BCND tud.63 / BCN: tud.58)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.rhaglendorcas.com](http://www.rhaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd heddiw pryd y cawn gyfle hefo'n gilydd eto i godi golwg ffydd at Iesu a'i addoli. Mae Iesu wedi dweud ei fod yn Fugail Da ac y mae gwirionedd hynny'n dod yn fyw iawn i ni yng nghanol profedigaethau mawr bywyd. Yn enw Iesu'r Bugail Da mae'r eglwys yn bugeilio hefyd a byddwn yn cydweddio heddiw yn sicr am nerth i ddangos ein bod fel cydaelodau o gorff Crist yn cydymdeimlo mewn cariad gyda phawb o'n plith sydd mewn galar.


Gelyn na chafodd eto ei ddileu ydi angau (1 Cor 15: 26). Collodd ei rym ym muddugoliaeth Iesu ar y groes ac yn ei atgyfodiad. Collodd ei fraw hefyd gan fod y bywyd tragwyddol sydd yn Iesu yn drech nag o (1 Cor 15: 56). Ond y mae o yn ein plith o hyd fel y gwyddom yn dda ac felly mae'n rhaid i bob un ohonom ei wynebu. Gwnawn hynny gyda'r Bugail Da wrth ein hymyl i'n hamddiffyn a nerth ei Ysbryd ynom.

Dwi wedi dod i weld fod disgrifiad Iesu ohono'i hun fel Bugail yn un godidog iawn oherwydd mae'n disgrifio gymaint o agweddau o ofal Duw trosom. Mae'n ceisio'r ddafad golledig (Luc 15). Mae hefyd yn un sy'n sefyll yn hyderus wrth wynebu'r blaidd er mwyn amddiffyn y praid, ac nid yw'n rhedeg i ffwrdd fel y byddai gwas cyflog (Ioan 10). Ei ddefaid o ydan ni (Salm 100) – ac oherwydd hynny mae ei ofal yn ofal i'r eithaf (Ioan 17), i'r graddau ei fod yn fodlon rhoi ei hun trosom a marw yn ein lle (Ioan 10). Mae hefyd yn ein codi i'w fynwes ac yn ein coleddu pan mae'n angen ni fwyaf amdano (Eseia 40:11).

Mewn lle arall, yn Salm 23, mae sôn am ddyffryn tywyll du, glyn cysgod angau, lle cawn y profiad o fod 'Duw gyda ni', ei wialen a'i ffon yn ein cysuro. Weithiau, byddwn yn cerdded ochr yn ochr ag angau am gyfnod hir o amser. Trwy salwch hir efallai, neu wrth ofalu dros eraill. Mae hyn fel cerdded trwy'r dyffryn hwn a phrofwon gynhaliath gyson a chymdeithas y Bugail Da yn ein cynnal a'n cysuro. Dro arall fe ddaw angau fel blaidd neu lew i gipio ar amrant, yn ddisymwth, yn frawychus o sydyn. Nid ydym wedi ei ddisgwyl ac mae ei ddylanwad i'w weld mor derfynol.

Ar adegau fel hyn, cofiwn am allu'r Bugail i arbed ei ddefaid o enau'r llew. Mae'r bugail dewr, Dafydd, yn gysgod o ddewrder a gallu Iesu'r Bugail Da. Mae'n dweud hyn am ei brofiad: "Bugail ar ddefaid ei dad yw dy was; pan fydd llew neu arth yn dod ac yn cipio dafad o'r ddiadell byddaf yn mynd ar ei ôl, yn ei daro, ac yn achub y ddafad o'i safn." (1 Samuel 17:34)

Credwn ninnau fod y rhai a gipiwyd yn sydyn gan angau hefyd yn brofiadol o Iesu yn dod i'w harbed o 'safn y bedd ac angau' a bod y Bugail Da wedi eu cipio'n ddiogel i'w fynwes ac i'w fywyd tragwyddol o afael y gelyn mawr (Datguddiad 21:4).

**DILYNWCH NI:** @eglwysibroaled 

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Iau – 22<sup>ain</sup> • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 23<sup>ain</sup> • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies a bydd Rhodri yn pregethu.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 20<sup>fed</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yng Nghefn Meiriadog am 7.00.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun – 19<sup>eg</sup> Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol Eglwys Unedig Llansannan am 7.30. Croeso i bob aelod.
- Iau – 22<sup>ain</sup> Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 18<sup>fed</sup> Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 25<sup>ain</sup> Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00, ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

### Darllenid Wythnos Nesaf

Sechareia 4:1-6 (BCND tud.860 / BCN: tud.784)